Cenn@d

RHAGFYR 6 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 145

Gwylnos Heddwch Maes Caernarfon

Fel amryw o lefydd eraill ar draws y wlad a'r byd, mae pobl tref Caernarfon wedi bod yn cynnal gwylnos bob nos Sul am 6.30yh ers dechrau'r gyflafan yn Israel a Gaza. Dros y mis diwetha fe gofnodwyd enwau rhai o'r plant a laddwyd ar ganfas mawr – 'gweithred symbolaidd sy'n hynod o bwerus a theimladwy', meddai Anna Jane Evans, un o'r trefnwyr. 'Mae neilltuo pum munud o dawelwch mewn undod yng ngolau canhwyllau fel petai'n gynhaliaeth ac yn dystiolaeth rymus i'n dyhead a'n cred fod byd gwahanol yn bosib!'

Diolchwn am ganiatâd i gyhoeddi isod ddwy o'r cerddi a gyfansoddwyd ar gyfer yr wylnos gan feirdd lleol yn ddiweddar.

Ceir cyfle i gofnodi enw un o'r miloedd o blant Gaza ac Israel sydd wedi cael eu lladd yn y gyflafan

Dyma fy enw

'Gwelais blant yn ysgrifennu eu henwau
ar gledr eu dwylo, oherwydd pan fyddan
nhw farw maen nhw am i bobl wybod
pwy ydyn nhw.'

Gweithiwr cynorthwyol gyda Medical Aid for Palestinians yn siarad o Gaza

Ysgrifennaf lythrennau fy enw
ar fy mysedd
hyd fy ngarddwrn;
dyma'r enw a roddwyd arnaf
gan fy mam,
a'r enw a roddwyd arni hithau
gan fy nain,
a'r enw a roddwyd ar fy nain
gan bob un a ddaeth
o'm blaen.

Dywedodd Nain unwaith
fod fy enw fel arogl bara
a bod clywed sŵn
pob sill
fel stori dda.

Ysgrifennaf lythrennau fy enw
ar fy mysedd
hyd fy ngarddwrn;
dyma'r enw a roddwyd arnaf
gan fy mam,
a'r enw a roddwyd arni hithau
gan fy nain,
a'r enw a roddwyd ar fy nain
gan bob un a ddaeth
o'm blaen.

Os dewch chi o hyd imi,
dyma fy enw.

Casi Wyn

Gaza Hydref 2023

Safaf inna'n fama a'm cannwyll yn fy llaw
yn gwrando ar y clecian calad o fanna'n bell,
tu draw
i'r walia carrag cadarn
a'r plant bach yn y baw.

Safaf inna'n fama a'r nos yn flancad ddu
yn syllu ar dân sy'n gwylltio,
a'r ffrwydro i'n dychryn ni
o'n swigan fechan glyd,
a'r fam yn gweiddi ei gweddi hi.

Safaf inna'n fama a 'nagrau wedi rhewi
yn blasu'r mwg o'r gwn;
mae nghalon inna'n torri
heno, ar Sul y Cofio,
a'm babi coch yn trengi.

A safaf inna'n fama yn ddelw, syfrdan, mud
a heno dwi'n gweddïo am bob babi yn ei grud,
heno, ni allaf ond gweddïo
am heddwch yn y byd.

Gwen Lasarus, 5.11.23

#CadoediadNAWR
#CeasefireNOW

Gwasanaethau'r Nadolig – syniadau ac adnoddau
Tudalen 2

Encilio i Aber er ein lles – Encil Gweinidogion EBC, 24–6 Hydref
Tudalen 4

Rhoi llyfr yn anrheg y Nadolig hwn
Tudalen 7

Gwasanaethau'r Nadolig – syniadau ac adnoddau

Erbyn hyn byddwn fel eglwysi yn dechrau trefnu ein gwasanaethau Nadolig. Gall y rheini gynnwys cyfarfodydd dan arweiniad y plant a'r bobl ifanc, cyfarfodydd canu carolau neu wasanaeth Llith a Charol, gwasanaethau Cristingl, ac efallai gyfarfodydd mewn ysgolion neu gartrefi preswyl. Bob blwyddyn byddwn yn chwilio am syniadau ac adnoddau newydd.

Ac mae amryw o bethau hollol newydd ar gael eleni eto, wedi eu paratoi gan nifer o fudiadau ac enwadau gwahanol. Mae'r Cyngor Ysgolion Sul yn ôl eu harfer wedi cywain yr adnoddau yma i un man cyfleus, ac mae modd cael mynediad iddynt drwy glicio ar: http://cristnogaeth.cymru/nadolig/

Mae yma adrannau helaeth sy'n cynnwys cannoedd o fyfyrdodau a gweddïau – adnoddau ar gyfer pob oed, a dweud y gwir – ac maent yno i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim. Mae adrannau ar gyfer yr Adfent, gwasanaeth Cristingl, drama'r Geni, gwasanaethau carolau, a digon o ddeunydd defosiynol ar gyfer gwasanaethau traddodiadol.

Rydym am dynnu eich sylw yn arbennig at yr adnoddau sydd i'w canfod yn yr adran **Adnoddau Nadolig Diweddar – 2023**. Yma rhestrir yr adnoddau rydym yn ymwybodol ohonynt a ymddangosodd yn gymharol ddiweddar.

Gwasanaeth Cymraeg gan Home for Good

Ymhlith yr adnoddau newydd mae gwasanaeth pob oed cyflawn gan fudiad Cristnogol Home for Good. Dyma'r tro cyntaf iddynt baratoi adnoddau Cymraeg, a gobeithir y bydd llawer yn eu defnyddio.

Adnoddau Nadolig Cymorth Cristnogol

Ceir adran hefyd yn cyfeirio ein sylw at adnoddau Nadolig Cymorth Cristnogol. Wrth i *Cenn@d* fynd i'w wely, doedd yr adnoddau hynny ddim wedi ymddangos yn fyw ar y wefan – ond maent ar y ffordd, felly cofiwch fynd i chwilio amdanynt.

Dau lyfr i blant gan Gymdeithas y Beibl

Mae gan Gymdeithas y Beibl ddau lyfr newydd i'w rhannu am ddim ymhlith plant, ac maent ar gael i'w prynu am 60c yr un. Y ddau lyfr newydd eleni yw *Gwil Gŵyl yn Cael Hyd i'r Rhodd Fwyaf* ac *Mae hi bron yr awr!*, llyfryn newydd yn adrodd stori'r Nadolig ar ffurf cerdd i'r plant lleiaf. Mae'r ddau lyfryn wedi eu paratoi yn Gymraeg gan Delyth Wyn. Hefyd ar gael i'w lawrlwytho mae gwasanaeth Nadolig syml sy'n cyd-fynd efo llyfryn Gwil Gŵyl.

Taflen garolau Gymraeg gan Embrace the Middle East

Mae gan elusen Embrace the Middle East daflen newydd sbon ar gael sy'n rhad ac am ddim i'w lawrlwytho ac yn cynnwys 20 carol boblogaidd. Cliciwch yma i fynd i wefan Embrace the Middle East, lle mae modd lawrlwytho'r ffeil PDF.

Mae gan y Cyngor Ysgolion Sul nifer o adnoddau newydd i deuluoedd hefyd dros gyfnod yr Adfent. Nodir rhai ohonynt isod:

Jig-so ar gyfer cyfnod yr Adfent

Ydych chi'n chwilio am weithgaredd i'r teulu dros gyfnod yr Adfent, neu efallai'n rhywun sy'n mwynhau gwneud jig-sos? Mae'r jig-so Nadoligaidd newydd hwn yn cynnwys 1,000 o ddarnau, ac wedi ei gwblhau bydd yn portreadu golygfa'r geni gwyrthiol ym Methlehem 2,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae'r jig-so wedi ei rannu i 24 bocs gwahanol, ac felly mae 'na gyfle i greu darn o'r llun fesul diwrnod, gan gymryd y cyfle i drafod neu fyfyrio ar gynnwys yr olygfa.

Pecyn creu golygfa preseb y Nadolig Cyntaf

Mae'r pecyn hwn yn rhoi cyfle i chi adeiladu eich golygfa o'r preseb eich hun. Mae'n amser casglu eich deunyddiau a gadael i'r hwyl ddechrau! Y cyfan sydd ei angen arnoch yw bocs cardbord bach (mae bocs esgidiau yn gweithio'n dda), cerdyn maint A4 ar gyfer argraffu'r cymeriadau, offer crefft (tâp, siswrn, creonau, marcwyr, ac ati). Gallwch ddefnyddio'r pecyn Nadolig hwn gartref neu yn yr ysgol Sul / eglwys i helpu plant i ddeall a dathlu'r newyddion da fod Iesu Grist wedi'i eni i fod yn Waredwr y byd!

Cardiau Adfent Lein Ddillad

Dyma galendr Adfent sy'n troi'n addurn Nadolig wrth iddo gael ei greu dros gyfnod yr Adfent tuag at ddydd Nadolig. Y cyfan fydd arnoch ei angen yw 8 darn o gerdyn maint A4, cortyn tua 3 metr o hyd a 24 o begiau dillad. Gellir addurno a lliwio'r cardiau, a thrafod yr adnod o dan sylw, cyn gosod y cardiau i fyny fesul diwrnod o 1 Rhagfyr tan ddydd Nadolig.

Gwersi Ysgol Sul newydd

Mewn cydweithrediad â Gweinidogaeth y Gwir Ffordd, mae tri phecyn o werslyfrau ysgol Sul hefyd ar gael yn yr adran yma ar y we i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim. Maent yn cynnwys detholiad o storïau, posau a gweithgareddau, ynghyd â ffilm Gymraeg newydd.

Os gwyddoch am fwy o adnoddau Nadolig newydd ar gyfer eleni, cysylltwch â ni er mwyn i ni eu hychwanegu at y rhestr sydd gennym ar y we. Anfonwch air i sylw: aled@ysgolsul.com os gwelwch yn dda.

Diwrnod Gweithredu Byd-eang COP28, 9 Rhagfyr

Rhwng 30 Tachwedd a 12 Rhagfyr, bydd arweinwyr byd yn ymgynnull ar gyfer uwchgynhadledd hinsawdd COP28 dan lywyddiaeth yr Emiradau Arabaidd Unedig (UAE). Yn dilyn yr haf poethaf erioed a newidiadau i ymrwymiadau hinsawdd Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae pawb sy'n poeni am yr argyfwng hinsawdd yn achub ar y cyfle hwn i ddod at ei gilydd a cheisio newid y naratif.

Ddydd Sadwrn, 9 Rhagfyr, bydd ymgyrchoedd yn cael eu cynnal ledled y byd mewn diwrnod byd-eang o weithredu dros gyfiawnder hinsawdd gan ddefnyddio'r slogan #NowWeRise.

Mae Cymorth Cristnogol yn gwahodd pobl i ymuno â nhw am 11yb ddydd Sadwrn, 9 Rhagfyr, yn y Tabernacl, Yr Aes, Caerdydd, CF10 1AJ, am wasanaeth byr a chyfle i weddïo dros drafodaethau COP28.

Rydym yn codi ar gyfer ein dyfodol

Digwyddiad dan arweiniad pobl ifanc

COP28 Diwrnod Gweithredu Byd-eang
Dydd Sadwrn 9fed Rhagfyr

Ymunwch â ni

Gweithdy creu negeseuon yn Pontio PL2 lefel 2 am 1.00 o'r gloch

Gorymdaith yn cychwyn am 2.30 o'r gloch y tu allan i adeilad Pontio, Bangor

Areithiau ieuenctid yn dilyn am 3.30 o'r gloch, Pontio PL2

n.w.walesclimateaction@protonmail.com https://fb.me/e/4GMkTcXgy

Maent yn gwahodd cefnogwyr i greu eu placardiau eu hunain. Gellir lawrlwytho adnoddau ar gyfer placardiau a gweddïau (yn Saesneg) yma: Campaign for Climate Justice – Christian Aid. Os ydych yn bwriadu mynychu, neu am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost at JWeaver@christian-aid.org.

Mae gweithgareddau hefyd ar y gweill yr un diwrnod ym Mangor (tu allan i Pontio LL57 2TQ am 2.30pm), Aberystwyth (yn y Bandstand SY23 2NN am 11am), Abertawe (Sgwâr y Castell SA1 3PP am hanner dydd). Mae map rhyngweithiol o'r holl ddigwyddiadau i'w weld yma.

Mae Llywodraeth Cymru unwaith eto yn trefnu Wythnos Hinsawdd Cymru i gyd-fynd â COP28 gyda gweminarau byw a rhai wedi'u recordio ar 4–8 Rhagfyr. Dilynir hyn gan raglen o Sgyrsiau am yr Hinsawdd tan 31 Ionawr 2024, a fydd yn ceisio annog trafodaeth ac ymateb i Fframwaith Pontio Cyfiawn Llywodraeth Cymru, a gyhoeddir yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru. Mae Cytûn wedi bod yn rhan o drafodaethau am y fframwaith hwn drwy Climate Cymru, yr ydym yn aelodau ohono.

(Allan o Fwletin Polisi Cytûn, Rhagfyr 2023; gellir darllen y bwletin yn llawn ar wefan Cytûn: www.cytun.co.uk)

Gweddi Ail Sul yr Adfent – 10 Rhagfyr 2023

Arglwydd Iesu, diolch i Ti am ddod yn oleuni i'r byd.

Wrth i ni baratoi am y Nadolig a'r goleuadau'n disgleirio o'n cwmpas, diolch am gael ein hatgoffa fod dy oleuni Di yn cyrraedd i bob man.

Diolch nad ydy dy olau Di byth yn cael ei ddiffodd.

Arglwydd, mae dy ddaioni Di yn treiddio hyd yn oed i'r corneli tywyllaf un yn y byd.

Mae dy olau Di yn obaith.

Mae dy olau Di yn ein calonogi.

Mae dy olau Di yn ein sbarduno i weithio dros ddaioni, i sefyll dros y rhai sy'n dioddef, ac yn erbyn drygioni ac anghyfiawnder.

Diolch i Ti am y gwaith sy'n cael ei wneud ar draws y byd i gynorthwyo'r rhai sy'n cael eu gorthrymu, ac sy'n rhoi gwybodaeth a chefnogaeth iddyn nhw weithio i wella eu sefyllfa byw.

Maddau i ni fod ein calonnau'n gallu bod yn galed a hunanol, yn hapus a dedwydd yn ein byd bach ein hunain.

Disgleiria dy olau ynom ni'r Nadolig yma.

Gad i ni ddod at breseb Bethlehem ac ailddarganfod dy oleuni Di a'i wahodd i'n newid ni, fel y byddwn ni eisiau rhannu'r goleuni yn hael gyda'r rhai o'n cwmpas, a'r rhai ar draws y byd. Amen.

Nia Williams
Pwllheli

Encilio i Aber er ein lles – Encil Gweinidogion EBC, 24–6 Hydref

Croesawyd dau ar hugain i Encil y Gweinidogion, yr encil cyntaf i'w gynnal ers cyn cyfnod pandemig y Coronafeirws. Roedd yn gyfle i weinidogion ddod at ei gilydd i drafod, i rwydweithio a chymdeithasu, â'n ffydd yn ganolog i'r cyfan. Gwnaed y gwaith trefnu dan ofal y Parch. Wayne Adams, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Adran Gweinidogaethau EBC, a Rhys Bebb Jones, Cydlynydd Hyfforddiant, gyda chymorth parod y tîm gweithgar o staff sydd yn swyddfa EBC yng Nghaerdydd.

Diolch yn fawr i berchnogion y Richmond, Aberystwyth, Jane a Richard, am eu croeso hyfryd, ac i'w staff – yn arbennig i Awen – am eu gwasanaeth ardderchog. Eglwys Dewi Sant, Stryd y Baddon, oedd lleoliad ein cyflwyniadau, a diolch i'r Parch. Eifion Roberts, Gweinidog yr eglwys, a'r swyddogion am eu cydweithrediad.

Bore Mercher cafwyd cyflwyniad ardderchog ac amserol gan y Parch. Simeon Baker, Cyfarwyddwr Cenhadol gydag Undeb Bedyddwyr Cymru yng Nghaerdydd. Daeth ei destun o Lyfr Jeremeia, pennod 12, adnodau 1–6. gan gyfeirio'n benodol at adnod 5: "Os ydy rhedeg ras gyda dynion yn dy flino di, sut wyt ti'n mynd i fedru cystadlu gyda cheffylau? Os wyt ti'n baglu ar y tir agored, beth am yn y goedwig wyllt ar lan yr Iorddonen?"

Cyfeiriodd at brysurdeb pob un yn y gynulleidfa a sut yr ydym yn ceisio ymdopi â ras bywyd. Cyfeiriodd hefyd at gymaint sydd o'i le ar draws y byd, er enghraifft yn Wcráin, Palestina a Manipur yn yr India. Mae llawer o'i le hefyd yn lleol yn ein cymunedau wrth i fwy o bobl golli eu ffordd mewn bywyd a'r rhai sy'n dilyn ffordd yr Arglwydd yn lleihau. Mae'n gyfnod heriol i fod yn weinidog ac wynebu a cheisio deall a delio â sefyllfaoedd anodd mewn byd mor ddrygionus a rhanedig. Nid oes gan weinidog ryw ffon hudol sy'n medru dod â daioni a goleuni ar amrantiad i fyd mor helbulus sy'n rhodio yn y tywyllwch. Mae bod yn weinidog yn alwad llawn amser ymhob ystyr i'r gair – 24/7!

Soniodd mor bwysig yw gofalu am ein bywyd – yn ysbrydol, yn feddyliol, yn gorfforol ac yn gymdeithasol. Ni ddylai gweinidog deimlo'n euog ei fod yn cymryd seibiant megis adeg gwyliau ac yn mynychu digwyddiadau fel Encil y Gweinidogion. Mae gweinidog, fel pob un arall, yn blino ac yn medru dioddef straen, ac angen cael y cyfle i ddadflino ac atgyfnerthu. Ni all gweinidog ond gwneud ei orau ac efallai na fydd byth yn gweld canlyniad llawn ei waith a'i gyfraniad. Ond bydd Duw yn gwybod yr hyn a gyflawnwyd. Mae'n bwysig edrych ar lwybr bywyd yn y tymor hir a pheidio â rhoi'r ffidil yn y to pan mae pethau'n mynd yn anodd. Rhaid bod yn barod i holi am gymorth a'i dderbyn o sawl cyfeiriad. Os safwn gydag Iesu a hoelio ein sylw ar Iesu, byddwn yn iawn ac yn cyrraedd diwedd y ras yn ddiogel.

Defosiwn un bore yng ngofal Nan

Simeon Baker a gyflwynodd y sesiwn 'Er ein lles'

Gwasanaeth o ddiolchgarwch am gyfraniad Charles a Molly Chua

Ar ymweliad â Phendinas ger Aberystwyth, Charles a Molly, Eifion, Richard ac Owen

Cafwyd cyfnodau o ddefosiwn hyfryd ac adeiladol dan arweiniad Wayne Adams, Aneurin Owen a Nan Powell-Davies. Yn ein defosiwn fore Iau cyfeiriodd Nan at bwysigrwydd y diwrnod yn arbennig i'r Parch. Charles a'i briod, Molly Chua. Dyma'r encil olaf iddynt cyn eu bod yn dychwelyd at eu teulu yn Singapore wedi dros ugain mlynedd yn gwasanaethu ac yn cenhadu yn enw'r Arglwydd yng Nghymru. Er eu bod yn gadael am Singapore mae'r cwlwm cariad a'r cyfeillgarwch sydd rhyngddynt a phawb sy'n eu hadnabod yng Nghymru yn dal yn dynn.

Nan hefyd arweiniodd yr oedfa o ddiolchgarwch a drefnwyd ar y nos Iau wedi'r encil er mwyn rhoi cyfle i weinidogion a gweithwyr EBC ddiolch i Charles a Molly Chua am eu gweinidogaeth i'r eglwysi ac i'r myfyrwyr tramor ym Mhrifysgol Abertawe.

Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr encil, ac i Amgueddfa Ceredigion (yn arbennig Andrea De'Rome), Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (yn arbennig Beca Davies) a Llyfrgell Genedlaethol Cymru (yn arbennig Daniel Johnson) lle trefnwyd inni ymweld â nhw.

Rhys Bebb Jones
Cydlynydd Hyfforddiant EBC

Rhifyn Nadolig y cylchgrawn *Cristion*

Mae'n debygol fod yr adnod o Lyfr yr Actau 'Dedwyddach yw rhoi na derbyn' (20.35) yn cael ei defnyddio lawer gwaith yn ystod cyfnod y Nadolig wrth i blant greu eu rhestr derfynol i Siôn Corn. Mae'r goleuadau llachar, addurniadau lliwgar a'r hysbysebion lu am deganau amrywiol ar y teledu – neu gylchu lluniau mewn catalog Argos, fel roeddem ni'n arfer ei wneud – i gyd yn adeiladu tuag at gynnwrf y diwrnod mawr.

Thema'r rhifyn hwn yw 'rhodd' neu 'anrheg', ac mae nifer o'r rhai sydd wedi cyfrannu erthygl yn enghreifftiau o rai sy'n rhoi i eraill. Cawn wybod mwy am brosiect Plant Dewi sy'n gwneud 'Bwndeli Babanod' i deuluoedd sydd angen ychydig o gymorth ar ôl genedigaeth babi. Yn ogystal, cawn ddarllen am waith Caffi'r Hedyn Mwstard sy'n arddangos cariad Duw mewn modd ymarferol. Hefyd, gallwch bori drwy erthyglau difyr ein colofnwyr Mihangel ap Rhisiart ac Eluned Williams sy'n myfyrio ar y thema.

Wrth i'r paratoadau at yr ŵyl brysuro ac i ninnau ddechrau lapio'r anrhegion, gadewch i ni oedi a chofio am yr anrheg mwyaf un a gawsom wrth i Dduw yn anfon ei unig Fab i'r byd. Yn hytrach na phoeni am y rhestr siopa hirfaith yn unig, beth am inni roi yn hael y Nadolig hwn o'r hyn roedd Iesu yn ei ymgnawdoli – cariad, cyfeillgarwch a heddwch. Fel y gwelwn o'r erthygl 'Gweddïwn', mae'r angen am y pethau hyn yn ein byd mor fawr ag erioed. Yng ngeiriau Alice Evans:

> Engyl Bethlem, seiniwch eto
> glod i Dduw am ddod mewn cnawd
> i gyfuno dyn â'i Grëwr
> a chymodi dyn â'i frawd;
> pan ormesir plant diniwed,
> pan wrthodir gweinio cledd,
> canwch uwch pob maes anghydfod
> mai trwy garu dyn daw hedd.

Hoffem fel golygyddion ddiolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth dros y flwyddyn a dymunwn Nadolig dedwydd a bendithiol i chi i gyd.

Carwyn, Nerys a Dylan

Ffair Nadolig Seilo

Pnawn dydd Iau, 16 Tachwedd, roedd Pwyllgor Gwaith Seilo yn barod am y Ffair Nadolig flynyddol. Bu rhai wrthi, fel lladd nadroedd, ers dyddiau yn coginio cacennau, sgons a bara brith; eraill ers wythnosau yn brysur yn gwneud jam a *chutneys*, a theisennau Nadolig. Llond dau fwrdd mawr o ddanteithion i dynnu dŵr o'ch dannedd!

Bu eraill o'n haelodau'n gwau a gwnïo addurniadau, dillad cynnes i'r plantos ac ambell degan meddal! Roedd y stondin cynnyrch gardd a'r basgedi anrhegion yn ddigon o sioe, a bu'r ocsiwn yn llwyddiant mawr hefyd.

Diolch o galon i bawb a weithiodd mor galed i sicrhau llwyddiant y Ffair Nadolig. Bu cydweithio hapus fel arfer, a phleser o'r mwya' oedd gweld y Theatr yn rhwydd lawn o bobl yn mwynhau sgwrs uwchben paned a mins pei. Diolch i chi i gyd am gefnogi. Gwnaed elw o tua £2,500, fydd yn cael ei rannu rhwng Ysgol Pendalar, Cronfa Goffa Dr Llŷr Roberts, a Seilo.

Edwina Morgan a Dorothy Williams

Bocsys Nadolig ar eu ffordd o Ofalaeth Caron i wneud gwahaniaeth

Aeth capeli Gofalaeth Caron ati i lanw bocsys Operation Christmas Child er mwyn eu dosbarthu i wledydd lle mae'r angen mwyaf. Mae'r ymgyrch yn tyfu bob blwyddyn a'r aelodau'n llanw'r bocsys – 87 ohonynt eleni – yn ogystal â thalu am y cludiant fel rhan o neges y Nadolig.

Diolch i'r Parchedig Carwyn Arthur am arwain y prosiect a threfnu'r cyfan. Mae estyn llaw cymwynas ar draws y gwledydd mor bwysig ag erioed – yr eglwys ar waith yn y gymuned fyd-eang

Diolch i aelodau Capel Bwlch-gwynt, Tregaron; Capel Bethesda, Llanddewibrefi; Capel Penial, Blaenpennal; a Chapel Bwlch-llan am eu haelioni.

Gair Duw ar Waith

gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 11
Bwydo'r dieithriaid
Sul, 10 Rhagfyr

Gweddi

Diolch, Arglwydd, am ein bwyd bob dydd, ac am wely i orffwys arno. Diolch am deulu sy'n ein cynnal a'n cefnogi ac am ffydd fyw ynot ti. Cofiwn hefyd am y sawl sydd heb aelwyd na chynhaliaeth, heb deulu na chred ynot, a gofynnwn am gael gweld ein cyfle i ddangos trugaredd i'r sawl sy'n ddieithr i ni ac mewn angen nawr. Amen.

Darlleniad: Mathew 15:32–9

'Yr wyf yn tosturio wrth y dyrfa' (adnod 32)

Cyflwyniad

Nodwedd o haelioni a chymwynasgarwch yr Iddewon oedd estyn croeso a lluniaeth i ddieithriaid. Ceir nifer o gyfeiriadau yn y Beibl at y disgwyliad hwn. Yn Genesis, Pennod 18, gwelir fel y bu i Abraham estyn lletygarwch i ddieithriaid, a bu'r Israeliaid / Iddewon ar hyd y canrifoedd yn gweld gwerth moesol yn yr un modd. Roedd disgwyliad i feddwl am anghenion y teithiwr dieithr a'i gamel, a dywedir y byddai'r croeso'n golygu lladd llo ar y dydd cyntaf, lladd dafad ar yr ail, a lladd cyw ar y trydydd diwrnod. Os byddai'r dieithryn yn dal yno ar y pedwerydd diwrnod, byddai'n cael cynnig ffa. Roedd yna gyfyngiad i'r haelioni hwn.

Yn hanes porthi'r dyrfa, roedd y disgyblion yn effro i angen y dyrfa, ac roedd Iesu yn gweld cyfle i ddangos mwy nag estyn ymborth, ac i ddangos hefyd sut yr oedd ef yn troi'r ychydig yn ddigon. Cofnododd yr efengylwyr y porthi hwn fel modd o rannu natur a gwaith Iesu ar lefel ddyfnach eto fyth.

Myfyrdod

Nodwedd ddifyr a hyfryd yw sylwi ar haelioni pobl yn wyneb argyfwng. Bydd llawer yn ei chael yn hawdd i ymateb yn hael pan ddangosir lluniau o bobl ar eu cythlwng ar adeg o sychder fel sydd ar hyn o bryd yng ngwledydd gogledd-ddwyrain yr Affrig – a da hynny. Bydd apeliadau am ddillad a nwyddau ymolchi i ddwyrain Ewrop yn sicr o ddenu ymateb, fel y gwelwn yn rheolaidd.

Serch hynny, bydd pobl yn ei chael yn anoddach i weld angen ar garreg y drws. Pan fydd pobl yn gofyn cardod ar y stryd, bydd canran sylweddol o bobl yn cerdded heibio heb hyd yn oed edrych neu gyfarch y sawl sy'n gofyn. Byddant yn ddall i'r olygfa druenus ac yn hawlio'n rhy hawdd nad yw'r gofyn i ddim ond i gynnal chwant y person am alcohol neu gyffuriau. Nid yw pawb sy'n gofyn cardod yn gaeth i gyffuriau ac mae angen deall cefndir ac angen y trueiniaid hyn. Mae'r Rainbow of Hope yn enghraifft o elusen sy'n darparu bwyd ar y stryd a gwêl rhai eglwysi hyn fel llwybr eu haelioni cymdeithasol. Yn ddi-os, mae'n ceisio byw'r Gair ac ymateb i ddameg y defaid a'r geifr.

Gweddi

Diolch, Arglwydd, am bob ymdrech i estyn cefnogaeth a chydymdeimlad i'r trueiniaid yn ein byd, yn yr apeliadau am ddillad i Romania neu wrth gefnogi'r Rainbow of Hope yng Nghaerdydd. Agor ein llygaid i weld y cyfleoedd i fyw'r Gair, ac i gydnabod angen cyd-ddinasyddion y ddaear mewn modd ymarferol a hael. Amen.

Cwestiynau i'w hystyried

1. A yw tosturi Iesu tuag at y dyrfa yn ffenomen ddyngarol neu'n ffenomen ddwyfol?
2. Yng nghyd-destun prinder bwyd a diod, meddyginiaeth a thanwydd yn Gaza ar hyn o bryd, beth fyddai arweiniad Iesu i'r rhai sy'n arweinwyr gwleidyddol yn y byd?
3. A ddylai fod gan bob eglwys gynlluniau cysgodol i gynnig bwyd a dillad ail-law ar gyfer tlodion daear?
4. Dywedodd y cyn-Ysgrifennydd Cartref Suella Braverman fod llawer yn dewis byw ar y stryd. Ym mha fodd y gallwn herio'r rhagdybiaethau hyn?
5. Bydd llawer o eglwysi'r trefi poblog yn medru agor drysau eu hadeiladau i gynnig nodded. Beth allai eglwysi yng nghefn gwlad ei gynnig?

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
Sul, 10 Rhagfyr
Ar ail Sul yr Adfent bydd Nia Roberts yng Nghwm Tawe i gwrdd â gwirfoddolwyr brwd sy'n rhoi eu Cristnogaeth ar waith wrth nesáu at y Nadolig. Caiff gwmni Fiona Gannon o fenter O Law i Law, a dysgu mwy am elusen Tŷ Croeso yng Nghlydach.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
Sul, 10 Rhagfyr, am 7:30yb a 16:30yp
Amrywiaeth o garolau a'r hyn a'u gwna yn arbennig i'r Parch. Nan Powell-Davies

Oedfa Radio Cymru
Sul, 10 Rhagfyr, am 12yp
Oedfa dan ofal Heulwen Evans, Castellnewydd Emlyn

Rhoi llyfr yn anrheg y Nadolig hwn

Gyda'r Nadolig yn agosáu, fe fydd yna hen grwydro siopau a'r we am anrhegion i'w rhoi i deulu a ffrindiau. Yn bersonol, mae'n gas gen i fynd ar gyfyl siopau rhwng rŵan a'r Nadolig gan fod y pwyslais i gyd ar anrhegion Nadolig dibwrpas, lle gwelwn becynnu siocledi, sanau a sebon mewn bocsys ffansi, ond heb fawr o sylwedd tu fewn. Heb os, mae llawer o bres yn cael ei wastraffu ar anrhegion dianghenraid, a llawer o'r rheini'n cyrraedd y siop elusen yn y flwyddyn newydd.

Bydd eglwysi ac ysgolion Sul hefyd yn trefnu eu partïon, gydag ymweliad gan Siôn Corn a'i anrhegion blynyddol; ac eto yn aml bocsys siocledi fydd yn cael eu cyflwyno ar ei ran. Tybed a ddylem fel Cristnogion ac eglwysi roi ychydig mwy o feddwl i mewn i'r hyn rydym yn ei rannu dros y tymor yma? Fel cyhoeddwr llyfrau Cristnogol, yn naturiol rwyf am weld mwy yn rhannu llyfrau sy'n atgoffa plant a phobl o bob oed o'r hyn yw'r Nadolig, a phwy yw Iesu Grist mewn gwirionedd. Mae cyfle i ni i gyd i rannu'r Newyddion Da dros dymor y Nadolig.

Eleni eto mae toreth o lyfrau newydd wedi eu cyhoeddi, a'r rheini yn gwbl addas i'w cyflwyno'n anrhegion. Dyma ddetholiad cryno o rai llyfrau newydd.

Llyfrau i oedolion

Ymhlith y detholiad o lyfrau newydd i oedolion mae cyfrol rhodd hyfryd *Codi'r Llen*, sy'n cynnwys 40 myfyrdod a llun o wragedd allweddol yn yr Hen Destament, a chyfrol *O Ddydd i Ddydd* sy'n cynnwys 365 myfyrdod Beiblaidd wedi eu dewis o gyfrolau'r gorffennol. Mae cyfrol o gerddi Cristnogol gan John Emyr, sef *Ffenestri Gobaith*, a chyfrol fyfyrdodol yn olrhain hanes Moses, sef *Dehongli Bywyd Moses*. Dau gofiant Cristnogol newydd yw *Liliau Tân* yn adrodd hanes Dr Rhiannon Lloyd a *Rhedeg yr Yrfa* yn olrhain taith D. Ben Rees fel gweinidog am 60 mlynedd.







Llyfrau i blant

Mae nifer o deitlau cyffrous ac arloesol newydd ar gael i blant eleni, gan gynnwys:

Llyfr Llechen Beiblaidd – y llyfr cyntaf yn Gymraeg i gynnwys sgrin electronig LCD er mwyn tynnu lluniau â *stylus*;

Llyfr Sŵn Anifeiliaid y Beibl – cyfrol hardd sy'n cynnwys 40 botwm, pob un ohonynt yn gwneud sŵn anifail gwahanol;

Llyfr Piano'r Nadolig – cyfrol liwgar sy'n cynnwys chwe charol, a phiano electronig wedi ei osod ar glawr y llyfr;

Llyfr Sticeri Beiblaidd – llyfr anferthol maint A3 sy'n cynnwys dros 200 o sticeri a straeon Beiblaidd;

Edrychwch, Ganwyd Iesu – llyfr lliwgar yn adrodd hanes geni Iesu.

Maent i gyd ar gael o'ch siop lyfrau Gymraeg neu Gristnogol leol, a byddai'n dda gweld mwy yn cefnogi ein siopau llyfrau lleol yn hytrach na phrynu ar y we.

Aled Davies

Neges Adfent 2023

Thema: Llawenydd

Emynau:
Caneuon Ffydd 468 – 'Tua Bethlem dref'
Caneuon Ffydd 479 – 'Daeth Crist i'n plith'

Darlleniadau:
Eseia 9:2–7 – Geni Bachgen
Luc 2:18–23 – Genedigaeth Iesu Grist

I'r rhelyw o bobl, y gair sy'n crynhoi holl emosiynau a phrofiadau'r Nadolig yw'r gair 'llawenydd'. Llawenydd plant wrth iddynt agor eu hanrhegion; llawenydd cyfarch aelodau'r teulu sy'n ymweld â'ch aelwydydd; llawenydd wrth weld y plant yn cyflwyno hen hen stori'r Nadolig cyntaf; llawenydd clywed plentyn bach yn canu carol Nadolig am y tro cyntaf; llawenydd pan gyhoeddir bod y wledd ddydd Dolig yn barod; a llawenydd wrth fod mewn amryw o gyngherddau a dathliadau o gylch yr ŵyl.

Sail a sylfaen y cyfan hyn i ni, Gristnogion, yw'r hyder tawel a deimlwn oherwydd hyn oll fod Duw yn wir gyda ni. Oedd yn wir, roedd Duw gyda phobl y Nadolig cyntaf ym Methlehem, fel y mae gyda ni heddiw yn ein dathliadau wrth inni baratoi ar gyfer yr ŵyl eleni. Fe roddodd genedigaeth Iesu gyfle i aileni'r byd a'i bobl yn ysbrydol. Fe roddodd genedigaeth Iesu gyfle i bobl droi at Dduw, edifarhau am eu pechodau a derbyn yr addewid o fywyd tragwyddol, neu fywyd gyda'r Tragwyddol Dduw, boed heddiw, boed ddoe neu bydded yfory.

Nid dyna brofiad pawb, wrth gwrs. Dyw llawenydd yr ŵyl ddim yn taro deuddeg i lawer. Diwrnod gwag, diystyr, diddim ydyw. Tydi son wrthynt am y newyddion da o lawenydd mawr yn tycio dim. Mae rhywbeth mawr ar goll yn eu bywydau. Gall bywyd fod yn ddiystyr, yn amherthnasol, yn oeraidd ac yn unig. Cânt eu hunain ar goll ym merw chwyrligwgan y Nadolig masnachol. Ac mae'r pethau arferol o gylch yr ŵyl megis pobi, addurno, prynu anrhegion ac ati ac ati yn ddim ond un ymhlith amryw o hasls sy'n fwrn ac yn faich, neu jest ddim ar yr agenda eleni.

Gall y cyfnod cyn y Nadolig fod yn llawen neu'n lleddf, yn ogoneddus neu'n ormodedd, yn llwyddiant mawr neu'n llyffethair ofnadwy. Ers talwm byddwn wrth fy modd yn ymweld ag ysgolion cynradd i ddweud hanes y goron Adfent, ac arwyddocâd y canhwyllau: gobaith, heddwch, llawenydd a chariad:

Geiriau byr a bachog ydy'r rhain a ddefnyddiwn i gyfleu rhai o'n hemosiynau dyfnaf. Bron iawn na ddywedwn fod y geiriau'n annigonol i wir gyfleu'r hyn a

deimlwn, a obeithiwn ac y dymunwn ei ddweud go iawn. Ond mae'r pedwar gair hyn yn cyfleu'r cwbl am y Nadolig cyntaf a phob Nadolig wedi hynny.

Defnyddir y gannwyll gobaith i'n dysgu am broffwydoliaeth dyfodiad cyntaf yr Iesu i'r byd. Gosodir yr ail gannwyll i ddynodi mai Tywysog Tangnefedd yw'r Iesu. Mae'r drydedd wedyn i'n hatgoffa am lawenydd y bugeiliaid wrth ganfod bod yr holl weddïau am ddyfodiad y Meseia wedi eu hateb. Ac yn olaf, cannwyll cariad i ddynodi bod dyfodiad Crist yn rhan o gynllun cariadus Duw tuag at y byd. A'r gannwyll yn y canol – cannwyll Crist, Goleuni'r Byd, a oleuir pan fydd y pedair arall wedi eu cynnau.

- **Gobaith:**

  Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni,
  a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd.
  Fe'i gelwir, "Cynghorwr rhyfeddol, Duw cadarn,
  Tad bythol, Tywysog heddychlon".

Ym mhle neu ym mhwy y mae gobaith eich ffydd yn aros? Ga' i gynnig fod ein gobaith yn aros yng Nghrist y cynghorwr, Crist y Duw nerthol, y Tad bythol a'r Tywysog heddychlon? Roedd Iesu yn byw mewn cyfnod o derfysg cenedlaethol, eto roedd Eseia wedi rhag-weld y byddai Iesu yn dod â goleuni arbennig i amgylchiadau o dywyllwch ac anobaith mawr. Byddai cyngor hwn i'r byd yn rhyfeddol ac yn anhygoel. Credai Eseia y byddai genedigaeth Crist yn digwydd oherwydd gweithgarwch nerthol yr Ysbryd Glân, ac y byddai'r 'mab Dafydd' hwn yn gallu cyflawni gwyrthiau lle roedd eraill wedi methu. Byddai'n ennill ei le yng nghalonnau ei ddilynwyr, a byddent hwythau yn ffyddlon ac yn driw iddo.

A ninnau'n byw yng nghysgod grymoedd milwrol a therfysgoedd ofnadwy yn Wcráin a'r Dwyrain Canol, dim ond wrth aros yn ymyl Crist y down ninnau i brofi'r cariad anorchfygol sydd gan Dduw atom, er gwaetha'r cyfan i gyd.

Byrdwn proffwydoliaeth Eseia yw y byddai dyfodiad Iesu yn wahanol, yn gwneud gwahaniaeth ac yn cynnig byd gwahanol inni fyw ynddo heddiw. Crist yw Tywysog ein Tangnefedd mewn byd sy'n gynyddol wrthwynebus. Credai Eseia nad trwy ddulliau rhyfel y byddai hwn yn ennill ei bobl, ond trwy bregethu ac ymarfer ysbryd heddychlon. Gwyddai'n burion na fyddai cyrraedd man o heddwch neu gadoediad yn golygu y deuai hen elynion yn gyfeillion, ond, o neilltuo achos y rhyfel: casineb, cenfigen a ffraeo, fod heddwch yn bosib.

- **Heddwch:**

Heddwch, meddwn i? Y gwir yw fod Crist wedi ei eni i ganol creulondeb, marwolaeth a dioddefaint. Amlygwyd hyn drwy deyrnasiad Herod, ac mae cri a glywyd yn Rama o hyd i'w gywed ar strydoedd Wcráin ac yn Gaza ac Israel hyd heddiw. Adleisir hyn yng ngeiriau'r garol gan Henry Wadsworth Longfellow:

> And in despair I bowed my head;
> "There is no peace on earth," I said;
> "For hate is strong,
> And mocks the song
> Of peace on earth, goodwill to men."

Paradocs yw Iesu mewn byd o flinder, casineb a drwgweithredu, ac mae Cristnogaeth fel petai'n arnofio moroedd mawr anhrefn a thwyll. Ond dyma'r Un sy'n cynnig arweiniad ymysg yr anhrefn, a chaiff ysbryd ac effaith y cleddyf ei gyferbynnu ganddo â thawelwch a heddwch cymharol y preseb ym Methlehem.

Mae Duw yn gweithio'n gyson i geisio sicrhau y bydd heddwch a chymod yn teyrnasu, fel y cawn ninnau hefyd brofi'r heddwch nad yw'r byd yn ei ddeall a'r tangnefedd nad yw'r byd yn gwybod amdano eto. Y gwir yw fod y baban ym Methlehem yn fyw heddiw ac y bydd byw yn dragywydd gyda ni. Dyma'r peth, y feri peth sy'n dod â thangnefedd i'n bron, i bawb sy'n credu ynddo.

Caiff ei byd ei lethu weithiau gan greulondeb dyn wrth ei gyd-ddyn, ond ni fydd y camddefnydd o rym gan Putin na Zelensky, Hamas na Netanyahus y byd yn darfod gyda hwy. Hanes dyn erioed yw ei awch a'i allu i gosbi'r gwan a'r diamddiffyn drwy ddulliau annynol a threisgar, gan ladd y diniwed a'u cyfrif yn ddifrod cyfochrog ('collateral damage'). Dywedodd Iesu mai dyma sydd i ddisgwyl yn y byd yma. Eto, yng nghanol anobaith terfysgoedd gwledydd y byd, trwy ffydd daw'r Iesu atom i'n cysuro, a'n hatgoffa na fydd casineb a chreulondeb yn ennill y dydd, a bod gennym ni Waredwr i'n cadw rhag y pethau hyn.

Jim Clarke
Llanfair-pwll

(Bydd ail hanner y neges yn dilyn yn rhifyn yr wythnos nesaf)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru